CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 3276 (Cy.314)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Newidiadau Etholiadol) 2002

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

O dan adran 64(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994) yr oedd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru adolygu'r trefniadau etholiadol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr etholiadau cyntaf i awdurdodau unedol ym Mai 1995.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi ei effaith i'r cynigion a wnaed yn adroddiad Rhagfyr 1999 Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Bwrdeistref Sirol Casnewydd.

Er bod y Gorchymyn yn dileu pob adran etholiadol presennol yn y Fwrdeistref Sirol ac yn eu disodli ag adrannau etholiadol newydd, yn ymarferol bydd y mwyafrif ohonynt yn aros yr un fath.

Mae'r trefniadau presennol yn aros yr un fath ar gyfer adrannau etholiadol **Allt-yr-ynn, Alway, Beechwood, Betws, Caerllion, Y Gaer, Y Graig, Llan-wern, Malpas, Pilgwenlli, Ringland, Tŷ-du, Shaftesbury, Sain Silian, Stow Hill, Parc Tredegar, Victoria.**

Cynrychiolir adran **Langstone**, sy'n cynnwys cymunedau **Langstone, Llanfaches** a **Phen-hŵ**, gan ddau gynghorydd.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 3276 (W.314)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The County Borough of Newport (Electoral Changes) Order 2002

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

The Local Government Boundary Commission for Wales was required by section 64(1) of the Local Government Act 1972 (as substituted by the Local Government (Wales) Act 1994) to review the electoral arrangements as soon as practicable after the first elections to unitary authorities in May 1995.

This Order gives effect to the proposals made in the Local Government Boundary Commission for Wales' report of December 1999 for the County Borough of Newport.

Although the Order abolishes all existing electoral divisions within the County Borough and replaces them with new electoral divisions, in practice the majority of them will remain the same.

The existing arrangements remain for the electoral divisions of **Allt-yr-yn, Alway, Beechwood, Bettws, Caerleon, Gaer, Graig, Llanwern, Malpas, Pillgwenlly, Ringland, Rogerstone, Shaftesbury, St. Julians, Stow Hill, Tredegar Park, Victoria.**

The division of **Langstone** which comprises of the communities of **Langstone, Llanvaches** and **Penhow** will be represented by two councillors.

Mae adran etholiadol **Liswerry** i gynnwys cymunedau **Liswerry** a **Threfonnen** ac mae i'w chynrychioli gan bedwar cynghorydd.Ni fydd adran etholiadol Llan-wern felly yn cynnwys cymuned Treffonen.

Mae adran **Maerun**, sy'n cynnwys cymunedau **Coedcernyw, Maerun, Llanfihangel-y-fedw** a **Gwynllwg**, i'w cynrychioli gan ddau gynghorydd.

The electoral division of **Liswerry** is to comprises of the communities of **Liswerry** and **Nash** and be is represented by four councillors. The electoral division of Llan-wern will not therefore include the community of Nash.

The **Marshfield** division, which comprises of the communities of **Coedkernew, Marshfield, Michaelstone-y-Fedw** and **Wentlooge**, is to be represented by two councillors.

2002 Rhif 3276 (Cy.314)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Newidiadau Etholiadol) 2002

Wedi'i wneud 6 Rhagfyr 2002

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Yn unol ag adrannau 58(1) a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**a**), cyflwynodd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynigion yn Rhagfyr 1999 ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Casnewydd. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi cytuno â'r cynigion, yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o'r Ddeddf:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Newidiadau Etholiadol) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:

(a) at ddibenion achosion, sy'n arwain at unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003, a

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "adran etholiadol" ("*electoral division*") yw un o adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Casnewydd fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Casnewydd 1994(**b**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.

(a) 1972 p.70.

(b) Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.

2002 No. 3276 (W.314)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The County Borough of Newport (Electoral Changes) Order 2002

Made 6th December 2002

Coming into force in accordance with article 1(2)

In pursuance of sections 58(1) and 64 of the Local Government Act 1972(**a**) the Local Government Boundary Commission for Wales submitted proposals in December 1999 for the future electoral arrangements for the County Borough of Newport. The National Assembly for Wales, having agreed with the proposals, makes the following Order in exercise of the powers conferred on it by sections 58(2) and 67(4) and (5) of the Act:

Name, commencement and interpretation

1.-(1) This Order is called the County Borough of Newport (Electoral Changes) Order 2002.

(2) This Order will come into force:

(a) for the purposes of proceedings, preliminary or relating to any election to be held on the 6th May 2004, on the 9th October 2003, and

(b) for all other purposes, on 6th May 2004.

(3) In this Order -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Local Government Act 1972;

"electoral division" ("*adran etholiadol*") means an electoral division of the County Borough of Newport as constituted by the County Borough of Newport Electoral Arrangements Order 1994(**b**).

(a) 1972 c.70.

(b) This Order was made on the 19th of December 1994 by the Secretary of State for the Home Department.

Adrannau Etholiadol

2.-(1) Diddymir adrannau etholiadol presennol Bwrdeistref Sirol Casnewydd a bennir yn yr Atodlen i Orchymyn Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Casnewydd 1994.

(2) At ddibenion ethol cynghorwyr ar gyfer Bwrdeistref Sirol Casnewydd, rhennir y Fwrdeistref Sirol honno yn 20 o adrannau etholiadol yn dwyn yr enwau a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i'r gorchymyn hwn, a bydd pob adran etholiadol o'r fath yn cynnwys yr ardal a bennir yng ngholofn (2) o'r Atodlen honno.

(3) Y nifer a bennir mewn perthynas â'r adran yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol o'r fath.

Y Gofrestr o Etholwyr Llywodraeth Leol

3. Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud unrhyw ad-drefniadau neu addasiadau i'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol sy'n angenrheidiol am fod y Gorchymyn hwn yn dod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Rhagfyr 2002

Electoral Divisions

2.-(1) The existing electoral divisions of the County Borough of Newport specified in the Schedule to the County Borough of Newport Electoral Arrangements Order 1994 are abolished.

(2) For the purposes of the elections of councillors for the County Borough of Newport, that County Borough shall be divided into 20 electoral divisions bearing the names specified in column (1) of the Schedule to this order, and each such electoral division shall comprise the area specified in column (2) of that Schedule.

(3) The number of councillors to be returned for each such electoral division shall be the number specified in relation to the division in column (3) of the Schedule to this Order.

Register of Local Government Electors

3. The registration officer shall make such re-arrangements or adaptation of the register of local government electors as may be necessary due to the coming into force of this Order.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

6th December 2002

E.Hart

Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

Minister for Local Government, Finance and Communities

YR ATODLEN

Erthygl 2

Enwau, ardaloedd a'r nifer o gynghorwyr ar gyfer adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Casnewydd

(1)	(2)	(3)
Enw'r Adran Etholiadol	**Ardal yr Adran Etholiadol**	**Y Nifer o Gynghorwyr**
Allt-yr-ynn	Cymuned Allt-yr-ynn	3
Alway	Cymuned Alway	3
Beechwood	Cymuned Beechwood	3
Betws	Cymuned Betws	3
Caerllion	Cymuned Caerllion	3
Y Gaer	Cymuned y Gaer	3
Y Graig	Cymuned y Graig	2
Langstone	Cymunedau Langstone, Llanfaches a Phen-hŵ	2
Liswerry	Cymunedau Liswerry a Threfonnen	4
Llan-wern	Cymunedau Trefesgob, Allteuryn, Llan-wern a Redwick	1
Malpas	Cymuned Malpas	3
Maerun	Cymunedau Coedcernyw, Maerun, Llanfihangel-y-fedw a Gwynllwg	2
Pilgwenlli	Cymuned Pilgwenlli	2
Ringland	Cymuned Ringland	3
Tŷ-du	Cymuned Tŷ-du	3
Shaftesbury	Cymuned Shaftesbury	2
Sain Silian	Cymuned Sain Silian	3
Stow Hill	Cymuned Stow Hill	2

SCHEDULE

Article 2

Names, areas and numbers of councillors for the electoral divisions of the County Borough of Newport

(1)	(2)	(3)
Name of Electoral Division	**Area of Electoral Division**	**Number of Councillors**
Allt-yr-yn	The Community of Allt-yr-yn	3
Alway	The Community of Alway	3
Beechwood	The Community of Beechwood	3
Bettws	The Community of Bettws	3
Caerleon	The Community of Caerleon	3
Gaer	The Community of Gaer	3
Graig	The Community of Graig	2
Langstone	The Communities of Langstone, Llanvaches and Penhow	2
Liswerry	The Communities of Liswerry and Nash	4
Llanwern	The Communities of Bishton, Goldcliff, Llanwern and Redwick	1
Malpas	The Community of Malpas	3
Marshfield	The Communities of Coedkernew, Marshfield, Michaelstone-y-Fedw and Wentlooge	2
Pillgwenlly	The Community of Pillgwenlly	2
Ringland	The Community of Ringland	3
Rogerstone	The Community of Rogerstone	3
Shaftesbury	The Community of Shaftesbury	2
St. Julians	The Community of St. Julians	3
Stow Hill	The Community of Stow Hill	2

Parc Tredegar	Cymuned Parc Tredegar	1
Victoria	Cymuned Victoria	2

Tredegar Park	The Community of Tredegar Park	1
Victoria	The Community of Victoria	2

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 3276 (Cy.314)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Newidiadau Etholiadol) 2002

2002 No. 3276 (W.314)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The County Borough of Newport (Electoral Changes) Order 2002

©℗ Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090623-3

9 780110 906232

£2.00

W013/01/03 ON